POLISI CAM-DRIN YN Y CARTREF

CYNNWYS

1. TAFLEN ADOLYGU

2. PWRPAS

3. SGÔP

4. CYFRIFOLDEBAU

5. MANYLION Y POLISI

6. FFACTOR RISG

7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

9. CYFEIRNODAU

10. COFNODION

11. ADOLYGU

1. TAFLEN ADOLYGU

Problem	Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Rhannu
Rhifyn 0	Adolygu polisi dyddiedig18/2010 - adolygiad 3 blynedd	Mari Pritchard	09/13
Rhifyn 1	Adolygu polisi dyddiedig 09/13 ac mewn ymateb i ddeddfwriaeth newydd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	Mari Pritchard	06/16

2. PWRPAS

2.1. Pwrpas y polisi hwn yn nodi sut y bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn ymdrin â achosion gwybyddus o gam-drin yn y cartref. Mi fydd y polisi yn rhoi diffiniad clir o Gam-drin yn y cartref i sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth a ddarperir wrth ymateb i faterion o gam-drin yn y cartref.

3. SGÔP

3.1. Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl denantiaid a darpar denantiaid eiddo sy'n berchen i CCG.

4. CYFRIFOLDEBAU

4.1. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cymunedau a Chwsmeriaid yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn effeithiol a bod y staff wedi eu hyfforddi yn briodol yn y gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r polisi hwn.

5. MANYLION Y POLISI

5.1. Mae CCG yn ystyried cam-drin yn y cartref fel mater difrifol gan y gall effeithio'n fawr ar y dioddefwr a'u teuluoedd.

5.2. Ni fydd CCG yn goddef cam-drin yn y cartref gan denant neu yn erbyn ei denantiaid neu breswylwyr eraill yn ein heiddo. Mae CCG yn cydnabod fod cam-drin yn y cartref yn drosedd a hefyd yn torri amodau tenantiaeth.

5.3. Mae polisi CCG yn cyfeirio at 'gam-drin' yn y cartref gan ein bod yn adnabod fod ei effaith yn mynd tu hwnt i drais corfforol. Bydd dogfennau lleol a chenedlaethol eraill yn cyfeirio at un ai trais yn y cartref a/neu gam-drin yn y cartref.

5.4. Mae cam-drin yn y cartref yn cael ei ddiffinio fel arfer fel digwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad o reoli, gorfodi neu fygwth, trais neu gam-drin rhwng rhai dros 16 mlwydd oed sydd neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau teulu er gwaethaf eu rhyw neu rywioldeb.

5.5. Mae cam-drin yn y cartref yn digwydd ar draws y gymdeithas heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol i oed, rhyw, hil, rhywioldeb neu pa mor gefnog yw rhywun a gall gynnwys y mathau canlynol o ymddygiad ond nid yw yn gyfyngedig i'r mathau yma o ymddygiad:

- **Cam-drin corfforol** - gan gynnwys taro, dyrnu, cicio, brathu, tynnu gwallt a tharo rhywun gyda gwrthrych. Gall anafiadau amlwg gynnwys cleisiau, briwiau a thoriadau. Anafiadau eraill nad ydynt yn amlwg fyddai anafiadau mewnol a cholli plentyn.
- **Cam-drin rhywiol** - gan gynnwys treisio a gweithrediadau rhywiol heb i'r unigolyn gytuno iddo.
- **Cam-drin emosiynol a/neu gam-drin seicolegol** - gall y math yma o gam-drin gynnwys brawychu, cam-drin geiriol, codi cywilydd a bychanu. Mae unrhyw ymddygiad sy'n achosi ofn hefyd wedi ei gynnwys a gall hynny gynnwys gweiddi,

syllu, bygythio, ystumio, malurio eiddo, tawelwch am gyfnod hir ac aflonyddu. Hefyd ymddygiad o geisio rheoli rhywun fel ynysu unigolyn rhag ffrindiau, teulu a chefnogaeth a goruchwylio eu bywyd bob dydd.

- **Cam-drin economaidd ac ariannol** - gall y math yma o gam-drin gynnwys rheoli neu ddal arian yn ôl neu gael mynediad i arian, mynnu cael derbynneb am bopeth sydd wedi ei wario neu ddarparu lwfans gan wybod nad yw'n ddigon ac yna defnyddio gorwario fel rheswm i gosbi.
- **Cam-drin ar sail anrhydedd** - ffurf o gam-drin domestig gyda'r sawl sy'n troseddu yn egluro fod y cam-drin yn digwydd oherwydd yr angen i ddiogelu neu amddiffyn anrhydedd y teulu.
  Gall gynnwys bob math o gam-drin sydd wedi'i restru a throseddau penodol fel priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod.
- **Trais a Chamdriniaeth y glasoed yn erbyn rhieni (APVA)** – tra bod y diffiniad o drais yn y cartref a cham-drin yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y rheiny dros 16 oed gall APVA yn yr un modd gynnwys plant o dan 16.
- **Ymddygiad o orfodi** : gweithred neu batrwm o weithrediadau o ymosod, bygythiadau, codi cywilydd a brawychu neu unrhyw gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn eu dioddefwr.
- **Ymddygiad o reoli :** ystod o bethau gyda'r bwriad o wneud person yn israddol a/neu ddibynnol drwy un hynysu rhag cefnogaeth, ecsbloetio eu hadnoddau a gallu er mwyn eu hunain, eu hamddifadu o bethau sy'n eu galluogi i fod yn annibynnol, gwrthod a dianc a rheoli eu hymddygiad bob dydd.

5.6. Bydd CCG yn ceisio ymdrin â phobl sy'n cael eu cam-drin yn y cartref mewn ffordd sensitif a chyfrinachol yn unol â'r polisi, deddfwriaeth berthnasol a chanllaw arfer da.

5.7. Bydd CCG yn rhoi gwybod i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref am yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt fel y gallant wneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth am eu sefyllfa unigol. Byddwn hefyd yn cynghori ar faterion tenantiaeth a chyfeirio pobl at asiantaethau cefnogol a pherthnasol.

5.8. Caiff CCG ei gynrychioli ar CARAA Trais yn y Cartref (Gynhadledd Asesu Risg Aml Asiantaeth) misol sy'n cael ei gydlynu gan Heddlu Gogledd Cymru.

5.9. Mi fydd CCG yn ystyried opsiynau sydd ar gael yn ddibynnol ar amgylchiadau'r unigolyn ac yn bwysicach byth, dymuniad y dioddefwr . Gall hyn gynnwys:

- Gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill i ddefnyddio pwerau cyfreithiol gan gynnwys, lle bo'n briodol, darpariaethau o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol i gael gwaharddeb (Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014) ar gyfer troseddwyr cam-drin yn y cartref neu eu troi allan (Deddf Tai 1988).
- Cynnig cefnogaeth drwy asiantaethau perthnasol sy'n bartneriaid i ni
- Darparu cyngor ar lety arall dros dro a chefnogaeth lle bo angen

- Cynorthwyo ble bynnag bo'n bosib gwneud y llety yn fwy diogel mewn partneriaeth a'r Heddlu ac asiantaethau Cam-drin yn y Cartref a Thrais er mwyn galluogi'r dioddefwr o gam-drin yn y cartref i aros yn y cartref.
- Cydnabod efallai nad oes yna dystiolaeth o gam-drin yn y cartref ar gael o ffynonellau eraill e.e. cymydog a derbyn gair y dioddefwr. Efallai y bydd angen tystiolaeth o ffynonellau eraill wrth gymryd camau cyfreithiol.
- Efallai y bydd CCG mewn amgylchiadau eithriadol yn defnyddio ei ddisgresiwn yn unol ag Adran 159(5) o Ddeddf Tai 1996 i drosglwyddo tenant tu allan i'r Polisi Gosod Tai Cyffredin. Enghraifft o hyn fyddai mewn achosion lle mae tenant i CCG yn dioddef cam-drin yn y cartref a bod angen eu symud er mwyn bod yn ddiogel.

5.10. **Opsiynau Cyfreithiol** - gall y rhain gynnwys troi rhywun allan, gwaharddeb a gorchmynion gwahardd. Bydd dioddefwyr cam-drin yn y cartref bob amser yn cael eu cynghori i ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol wrth ystyried yr opsiynau hyn.

5.11. Efallai y bydd dioddefwr cam-drin yn y cartref yn dymuno dwyn achos cyfreithiol ei hun a datrys y sefyllfa o dan y Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 a Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997. Mae datrysiadau fyn cynnwys:

- **Gorchmynion peidio ag ymyrryd** - gorchymyn nad yw'r cyflawnwr i ymosod, ymyrryd na aflonyddu ar berson arall neu unrhyw 'blant perthnasol'
- **Gorchmynion meddiannaeth** - gorchmynion llys dros dro yw'r rhain sy'n ymwneud â daliadaeth y cartref ac i bennu pwy ddylai fyw yn y cartref hyd y bydd penderfyniad terfynol wedi ei wneud.
- **Gorchmynion Ffrwyno** - yw gorchymyn sy'n cael ei gyflwyno gan y llys i wahardd unigolyn rhag cario allan gweithgaredd penodol, yn arbennig mynd at neu gysylltu gyda pherson sydd wedi'i adnabod.

5.12. **Proses ar gyfer ymdrin ag achosion o gam-drin yn y cartref -**

- bydd staff yn cael gwybod am y polisi hwn a disgwylir iddynt gefnogi ymrwymiad CCG o ran ymdrin ag achosion o gam-drin yn y cartref
- pe bai rhaid bydd cyfweliad preifat yn cael ei gynnal (mewn lle diogel os bydd rhaid) gyda'r dioddefwr ar ôl derbyn y wybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiad o gam-drin yn y cartref
- byddwn yn cadw cofnodion o'r digwyddiadau a gaiff eu hadrodd a'r ymchwiliadau sydd wedi eu cynnal
- byddwn yn cynghori dioddefwyr o'r hyn y gallwn ni ei wneud a sefydlu beth na allwn ni ei wneud a hefyd yn eu cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol
- Bydd CCG yn annog y dioddefwr o gam-drin yn y cartref i ddweud wrth yr heddlu am y mater (fodd bynnag, ni fydd hyn yn amod er mwyn i CCG fynd ymlaen gyda'r achos)

- Mae CCG yn cydnabod y gall rhai achosion o gam-drin yn y cartref fod yn anodd ei datrys ond bydd yn ymdrechu i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill tan ddaw'r mater i ben.

5.13. **Cyfrinachedd** - mi fydd CCG yn cadw at gyfrinachedd wrth ymdrin ag achosion o gam-drin yn y cartref ond efallai y bydd yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau sy'n bartneriaid yn unol â deddfwriaeth berthnasol a phrotocolau sydd wedi eu cytuno e.e. efallai y bydd gwybodaeth yn cael ei rannu gyda phartneriaid fel yr Heddlu pan fydd swyddog CCG yn adnabod risg o niwed i unrhyw blentyn neu oedolyn ac yn unol â H&Spol34c - Polisi Diogelu Grwpiau Bregus.

6. FFACTOR RISG

6.1. Gall peidio â chael polisi clir ar Gam-drin yn y Cartref yn ei le sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac arfer da olygu risg o golli enw da a heriau cyfreithiol costus.

6.2. Y risg nad yw CCG yn darparu cyngor a chefnogaeth ddigonol i amddiffyn tenantiaid sy'n dioddef cam-drin yn y cartref a all olygu bod tenantiaid yn cael eu hanafu neu eu lladd.

7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

7.1. Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd CCG yn ymrwymo i drin pob ymholiad yn deg yn unol â'i bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

7.2. Wrth ymateb i gam-drin yn y cartref bydd CCG yn sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cwrdd ag anghenion pawb.

8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

9. CYFEIRNODAU

9.1. Polisi Tor Perthynas CCG (TSpol04c)

9.2. Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol CCG (NSpol01c)

9.3. Deddfau Tai 1985, 1988 & 1996

9.4. Deddf Digartrefedd 2002 & Deddf Tai (Cymru) 2014

9.5. Deddf Cyfraith Teulu 1996

9.6. Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997

9.7. Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

9.8. Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015,

9.9. Polisi Diogelu Grwpiau Bregus CCG (H&Spol34c)

9.10. Y Swyddfa Gartref - Canllaw: trais a cham-drin y glasoed yn erbyn rhieni (APVA)

10. COFNODION

11. ADOLYGU

11.1. Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bod 3 mlynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, arfer da neu newid i unrhyw bolisïau perthnasol eraill CCG Cyf.